# Cyngor Celfyddydau Cymru

# Cylch gorchwyl

# Pwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chydraddoldeb

Gorffennaf 2025

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

## Cylch gorchwyl

Mae gwaith y Cyngor yn cael ei gychwyn, ei reoli a'i fonitro gan y Cyngor ei hun a chyfres o bwyllgorau y mae'r Cyngor yn dirprwyo grymoedd iddynt. Mae’r pwyllgorau yn israddd i'r Cyngor yn y strwythur llywodraethu. Heblaw am y meysydd lle mae'r Cyngor wedi dirprwyo tasgau penodol ac awdurdod i weithredu, ymgynghorol yw’r pwyllgorau. Maent yn adrodd i'r Cyngor am berfformiad y gwaith sy'n ymwneud â’u cylch gwaith. Byddant hefyd yn tynnu sylw'r Cyngor at unrhyw faterion sy'n peri pryder neu’n feysydd i'w gwella.

Mae pedwar pwyllgor gyda grymoedd dirprwyedig:

- Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl
- Y Pwyllgor Cyfalaf
- Y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Thâl
- Pwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chydraddoldeb

Mae Pwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chydraddoldeb yn ymgorffori gwaith y pwyllgorau blaenorol Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb Strategol a'r Gymraeg gan sicrhau dull integredig a chydlynol o bob un o'r meysydd i ddatblygu a chynyddu pob un.

Mae hefyd un Grŵp – Iechyd a Diogelwch – sydd hefyd yn adrodd i'r Cyngor drwy ei gofnodion a’i  Adroddiad Blynyddol sy’n mynd i’r Cyngor gan Gadeirydd y Grŵp, y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes.

Mae cylch gwaith penodol Pwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chydraddoldeb isod.

Y Cyngor sy’n adolygu a chymeradwyo ei gylch gorchwyl yn flynyddol. Adolygodd a chymeradwyodd y Cyngor y ddogfen yma ym mis Gorffennaf 2024.

## Gwaith y Pwyllgor

1. Adolygu, monitro a chyfrannu at ddatblygu polisïau a gweithdrefnau sy'n galluogi'r Cyngor i ddilyn agenda flaengar wrth gyflawni ei flaenoriaethau strategol gan sicrhau bod ei waith yn y maes yn dilyn uchelgais a gofynion:

- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- Deddf Cydraddoldeb 2010
- 6 egwyddor y Cyngor

Bydd yn gwneud hyn drwy:

i. sicrhau bod diwylliant a chreadigrwydd wrth wraidd popeth rydym yn ei wneud a phawb rydym yn eu cefnogi gan gyfrannu at ddarparu amrywiaeth eang o gelfyddydau ac arferion creadigol sy'n ysbrydoli a chyfoethogi ac sydd wedi'u creu gyda chymunedau a chynulleidfaoedd mewn golwg ac sy'n annog arloesedd artistig, arferion moesegol a chynwysoldeb

ii. sicrhau defnydd o'r Gymraeg a'r syniad bod y Gymraeg yn rhan annatod o ddiwylliant Cymru ac yn perthyn i bawb fel y dywed y Polisi Hwyluso a Hyrwyddo'r Gymraeg a chan gydymffurfio â safonau'r Gymraeg

iii. sicrhau bod y Cyngor a'i staff yn ymgorffori'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy (gan weithredu mewn modd sy'n diwallu anghenion y presennol gan sicrhau gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw hefyd) a'r 5 ffordd o weithio (hirdymor, atal, cydweithio, integreiddio, cysylltu) yng ngwaith y Cyngor

iv. sicrhau agenda flaengar i hybu cydraddoldeb ar draws holl nodweddion gwarchodedig Deddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas/partneriaethau sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, ethnigrwydd, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol)

2. Ystyried cynigion a rhaglenni gwaith newydd gan gynnwys grantiau, datblygu gwaith presennol yng nghyd-destun Pwynt 1 a 6 egwyddor y Cyngor, darparu cyngor a gwneud argymhellion lle bo hynny'n briodol cyn byddant yn cael eu cymeradwyo yn y ffordd arferol.

3. Cynorthwyo datblygu lleisiau pobl ifanc yn strwythurau'r Cyngor yn y dyfodol

4. Cyfrannu at fonitro ein cydymffurfiaeth â'n holl ofynion statudol a rheoleiddio perthnasol gan gynnwys unrhyw ddyletswyddau cyffredinol a phenodol, monitro cynlluniau gweithredu perthnasol a llunio adroddiadau blynyddol yn unol â deddfwriaeth

5. Cynghori am ddatblygu, gweithredu a monitro prosiectau polisi a datblygiad ym mhob un o'r meysydd canlynol:

i. Mentrau, gweithgareddau, rhaglenni a phrosiectau allweddol y Cyngor gan gynnwys: cyfiawnder hinsawdd, y Gymraeg, cydraddoldeb strategol (gan gynnwys hyrwyddo a defnyddio Arwyddeg), Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, y Celfyddydau ac Iechyd, Dysgu Creadigol a grwpiau datblygu rhaglenni a'r sector

ii. y sefydliadau sy'n cael arian yn amlflwyddyn gan gynnwys yn y meysydd uchod drwy gytundebau ariannu ac adrodd blynyddol

iii. prosiectau rydym yn eu hariannu drwy Arian Strategol ac Arian y Loteri Genedlaethol

iv. ymchwilio, gwerthuso ac ystyried sut i weithredu'r gwersi sy'n cael eu dysgu ar draws ein gwaith

6. Bydd y Pwyllgor yn sicrhau gwneud y gwaith drwy'r canlynol:

i. goruchwylio effeithiolrwydd gwaith y Cyngor wrth ddangos ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy fel egwyddor sylfaenol

ii. monitro gweithredu gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol gan gynnwys yr Asesiadau o'r Effaith Gyfunol

iii. ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol a gwahodd eu cyfranogiad a'u presenoldeb gan gynnwys Cydweithwyr Celfyddydol, cynrychiolwyr o grwpiau a chymunedau amrywiol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, pobl ifanc a chyngor allanol arbenigol (fel staff Comisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Gymraeg)

iv. cynghori am fentrau sy'n hyfforddi ein staff a'u datblygu'n broffesiynol yn y meysydd dan sylw, sef y Gymraeg, cydraddoldeb a chynaliadwyedd

v. rhoi cyngor, arweiniad a chyfeiriadau at bobl eraill mewn meysydd perthnasol er budd artistiaid a sefydliadau celfyddydol a rhannu arferion da drwy hwyluso a threfnu rhannu gwybodaeth ac astudiaethau achos priodol

vi. gwneud argymhellion i'r Tîm Arwain Gweithredol a'r Cyngor am y meysydd uchod

vii. cydweithio â meysydd eraill y sefydliad gan gynnwys y Tîm Arwain Gweithredol, Cyfathrebu a rhai grwpiau gorchwyl a phrosiect/rhaglen i nodi a chynyddu'r meysydd gwaith cysylltiedig, eiriolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gyhoeddi cyflawniadau. Mae'r grwpiau tasg yn cynnwys meysydd strategol fel y Gymraeg, Cydraddoldeb, Cyfiawnder Hinsawdd a grwpiau prosiect/rhaglen gan gynnwys grwpiau o'n staff fel Dysgu Creadigol a'r Celfyddydau ac Iechyd

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd** | Y Cydgadeiryddion fydd dau aelod o'r Cyngor y mae'r Cyngor yn eu penodi |
| **Aelodaeth** | Bydd aelodau yn cynnwys dewis aelodau o'r Cyngor a hyd at 4 aelod annibynnol neu banel. Bydd y canlynol hefyd yn mynd i gyfarfodydd: y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr y Celfyddydau, staff sy'n arwain ym maes Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb a'r Gymraeg, Ymchwil, Cyfathrebu, Rhyngwladol a Phennaeth Llywodraethu. Bydd staff eraill yn cael gwahoddiad i ddod i gyfarfodydd penodol oherwydd natur yr eitemau ar yr agenda |
| **Cworwm** | Unrhyw 5 aelod o'r Pwyllgor, y mae'n rhaid i o leiaf 3 ohonynt fod yn aelodau o'r Cyngor. Bydd aelod arall o'r Cyngor yn gallu dirprwyo fel Cadeirydd yn absenoldeb yr un arferol. Gan aros am benodi Aelodau Annibynnol, ffigur y cworwm dros dro fydd o leiaf 3 aelod o'r Cyngor |
| **Atebolrwydd** | Yn y pen draw, y Cyngor sydd â'r cyfrifoldeb am bolisi a gweithdrefnau yn y maes. Nid oes gan y grŵp unrhyw rymoedd dirprwyedig heblaw am yr uchod ac mae'n rhaid iddo gydlynu â'r Cyngor a'r Tîm Arwain Gweithredol<br><br>Mae ymddygiad aelodau o'r grŵp (yn unigol ac ar y cyd) yn rhwym wrth god moesegol y Cyngor fel y sydd yng Nghod yr Arferion Gorau. Rhaid i aelodau hefyd ddatgan unrhyw fuddiant ym mhob cyfarfod |
| **Cyfarfodydd** | Byddant yn ddwyieithog ac yn digwydd bob chwarter o leiaf gyda chyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen. Oherwydd yr amgylchedd, bydd y rhan fwyaf o gyfarfodydd yn digwydd ar-lein neu ar-lein ac wyneb yn wyneb. Byddant yn ddwyieithog gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg. Byddant yn digwydd ar adegau amserol o ran adrodd i gyfarfod nesaf o'r Cyngor |
| **Papurau** | I'w dosbarthu ymlaen llaw pryd bynnag y bo modd drwy e-bost a'i storio'n electronig yn system rheoli data a chofnodion electronig y Cyngor |
| **Adrodd** | Bydd cofnodion y Pwyllgor yn mynd i'r Cyngor a bydd yn llunio Adroddiad Blynyddol i'w gymeradwyo gan y Cyngor sy'n nodi:<br><br>• gwaith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn |

- perfformiad y Cyngor yn erbyn yr amcanion a'r targedau sydd mewn cynlluniau gweithredu blynyddol perthnasol a chysylltiedig

- gwaith y Cyngor yn ystod y flwyddyn wrth gyflawni ei rwymedigaethau dan bob un o'r deddfau perthnasol

- gwaith aelodau o Bortffolio Celfyddydol Cymru wrth gyflawni'r amcanion ym Mhwynt 4 uchod

| | |
|---|---|
| **Cofnodion** | Bydd holl ddogfennau'r Pwyllgor yn cael eu ffeilio'n electronig yn system rheoli data a chofnodion electronig y Cyngor |
| **Diweddaru** | Cafodd y ddogfen ei chreu a'i chymeradwyo gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2025. Mae ei chywirdeb yn cael ei wirio'n flynyddol |